

# Papur Ystadegol: Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)

## Crynodeb Gweithredol

1. Yn y [Memorandwm Esboniadol](#) y cyflwynais i ar 17 Awst 2022, ymrwymais i ddarparu papur ystadegol i Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl ar gytundeb y Senedd i gyflwyno Bil Addysg Awyr Agored (Cymru). Byddai'r papur hwn yn nodi'r data mwyaf perthnasol sydd ar gael hyd at fis Medi 2022 yng Nghymru.
2. Gan weithio gyda Phanel Cyngorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) Cymru, rwyf wedi casglu data sy'n dangos:

Dywedodd **60 y cant** o'r ysgolion a holwyd mai rhesymau ariannol yw'r prif rwystr i gyfranogiad mewn ymweliadau preswyl addysg awyr agored.

Mewn dros draean o ysgolion, o blith y plant hynny sy'n cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymweliad preswyl addysg awyr agored, llai nag **75 y cant** ohonynt sy'n cymryd rhan.

Yn ychwanegol, nid yw **23 y cant** o ysgolion yn cynnig cymhorthdal i'r teuluoedd hynny sydd dan gyfyngiadau ariannol.

3. Ceir rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'i ganlyniadau yn adrannau canlynol y papur hwn.

## Pam cynnal arolwg?

4. Nid oes unrhyw ystadegau swyddogol am nifer yr ymweliadau preswyl addysg awyr agored a faint o'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru sy'n cael yr ystod amlwg o fanteision y maent yn eu darparu.
5. OEAP Cymru yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyngorwyr addysg awyr agored sy'n goruchwylio ymweliadau addysg awyr agored. Mae hefyd yn cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru drwy weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol.
6. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio system ar-lein (EVOLVE) i reoli ymweliadau addysgol. Fel y nodais yn y [Memorandwm Esboniadol](#), mae data ar gael o'r system hon, ond mae aelodau OEAP Cymru yn

cynghori, er eu bod yn ddefnyddiol, nad yw'n dangos y darlun llawn nac yn cipio ar lefel unigol y rhai sy'n cymryd rhan, neu beidio, yn y gweithgareddau hyn. O'r herwydd, mae'n debygol bod diffyg amlwg yn nifer y disgyblion ledled Cymru sy'n gallu mynd ar ymweliadau preswyl addysg awyr agored.

7. Mae data gan OEAP Cymru yn awgrymu y cynhaliwyd 1,072 o ymweliadau preswyl addysg awyr agored ledled Cymru yn 2022. Pe bai pob ymweliad yn cynrychioli un ymweliad preswyl addysg awyr agored gan ysgol bob blwyddyn a bod y data yn dangos lledaeniad cyfartal o ymweliadau ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, yna byddai hyn yn golygu bod tua dwy ran o dair o ysgolion Cymru yn trefnu ymweliadau preswyl addysg awyr agored. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwbl glir, ac mae'r data yn fwy cymhleth a chynnil gan fod yr ystadegau hefyd yn cynnwys ymweliadau gan sefydliadau nad ydynt yn ysgolion, fel gwasanaethau ieuencid, sy'n cyfrif am tua 5-10 y cant o'r cyfanswm. Bydd rhai sefydliadau yn cofnodi ymweliadau preswyl lluosog a gallant hefyd gynnwys ymweliadau eraill fel ymweliadau chwaraeon ac alldeithiau Gwobr Dug Caeredin.
8. Roeddwn i eisiau gwybod mwy. Gan weithio gydag OEAP Cymru, lansiais arolwg i gasglu data a gofyn i'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion – yn gweithio gyda'n plant a'n pobl ifanc – am wybodaeth ynghylch pa gyfleoedd oedd yn cael eu cynnig a faint oedd wedi'u cymryd, neu'n gallu eu cymryd.
9. O ystyried yr amserlenni, anfonodd OEAP Cymru yr arolwg i'r cynghorydd addysg awyr agored ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n defnyddio ei system i reoli ymweliadau addysgol. Yn eu tro, fe wnaethant ddosbarthu'r arolwg ar-lein i ysgolion a gynhelir er mwyn eu cwblhau a'u cyflwyno. Anfonodd OEAP Cymru yr arolwg ar-lein hefyd at y cynghorydd addysg awyr agored mewn awdurdod lleol ychwanegol, nad yw'n defnyddio system OEAP Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod wedi rhannu'r arolwg gyda phob awdurdod lleol heblaw dau yng Nghymru (Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) nad oes ganddynt gynghorydd addysg awyr agored ar hyn o bryd.
10. Ceisiodd yr arolwg ar-lein y wybodaeth a ganlyn, yn ogystal â manylion am yr ysgol a oedd yn ymateb:
  - A yw eich ysgol yn cynnig cyfleoedd preswyl addysg awyr agored?
  - Pa grŵp (grwpiau) blwyddyn sydd fel arfer yn cymryd rhan?

- A yw pob plentyn yn y grŵp (grwpiau) blwyddyn yn cael y cyfle i gymryd rhan?
- Ar gyfartaledd, pa ganran o'r grŵp (grwpiau) blwyddyn sy'n manteisio ar y cynnig (cynigion)?
- O'r rheini nad ydynt yn cymryd rhan, rhestrwch yr holl resymau.
- A yw eich ysgol yn cynnig cymorthdaliadau ar gyfer ymweliadau preswyl addysg awyr agored i deuluoedd sydd dan gyfyngiadau ariannol?

## **Canlyniadau'r arolwg**

### **Pwy ymatebodd?**


11. Cefais 351 o ymatebion, gan 324 o ysgolion a gynhelir (260 o ysgolion cynradd a 64 o ysgolion uwchradd), ar draws 18 awdurdod lleol.

### **A yw pob ysgol yn cynnig cyfleoedd preswyl addysg awyr agored?**

12. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cyfle preswyl addysg awyr agored, roedd 5 y cant o'r ysgolion a holwyd nad ydynt yn cynnig hyn o gwbl.

13. Dangosodd yr arolwg fod y rhan fwyaf o'r cyfleoedd hyn yn cael eu cynnig mewn ysgolion cynradd, gyda chyfran fawr yn digwydd ym Mlynnyddoedd 5 a 6, fel rhan bwysig o'r broses o bontio i'r ysgol uwchradd.

● Dosbarth derbyn	0
● Blwyddyn 1	0
● Blwyddyn 2	3
● Blwyddyn 3	55
● Blwyddyn 4	106
● Blwyddyn 5	213
● Blwyddyn 6	278
● Blwyddyn 7	37
● Blwyddyn 8	35
● Blwyddyn 9	41
● Blwyddyn 10	37
● Blwyddyn 11	28
● Blwyddyn 12	27
● Blwyddyn 13	22



## Pwy sy'n cymryd rhan?

14. Dangosodd y canlyniadau fod ymhell dros draean o'r rhai a gafodd y cyfle i gymryd rhan yn dangos cyfraddau cyfranogiad is na 75 y cant.


● 0-25%	21
● 25-50%	34
● 50-75%	63
● 75-100%	211



## Rhesymau dros beidio â chymryd rhan

15. Y rhwystr mwyaf o bell ffordd i blant nad ydynt yn gallu cymryd rhan yw rhesymau ariannol. Yn y golofn 'arall', roedd tua 43 y cant o'r sylwadau'n nodi rhesymau fel gorbryder, pryderon rhieni neu faterion ymlyniad teuluol fel rhesymau pam nad yw plant yn cymryd rhan.

●	Cyfyngiadau ariannol	207
●	Rhesymau iechyd	44
●	Cyfyngiadau cymdeithasol	97
●	Materion symudedd	11
●	Anghenion Dysgu Ychwanegol	50
●	Arall	149



Sam Rowlands AS, Hydref 2022